# SchoolBeat

Rhifyn 21

Y wybodaeth ddiweddaraf i athrawon, rhieni ac oedolion sy'n gofalu am blant

## Yn y rhifyn hwn:

- Aflonyddu Rhywiol
- Sbotolau ar gyffur: Tybaco Anghyfreithlon
- Gamblo a Phobl Ifanc
- Diogelwch ar ein rheilffyrdd!





# Annwyl GYDWEITHWYR



## Dyma gylchgrawn SchoolBeat!

Mae'r **21ain RHIFYN** hwn yn llawn gwybodaeth, cyngor a newyddion i'ch cefnogi chi a'ch ysgol.

Gan fod pobl ifanc yn treulio mwy o amser ar y Rhyngrwyd, testun ein herthygl arbennig yw Aflonyddu Rhywiol.

Ceir erthygl hefyd am Ddiogelwch ar y Rheilffyrdd, a Gamblo a Phobl Ifanc. 'Nicotin a Defnyddio E-sigaréts a mwy yw testun y Sbotolau ar Gyffur!




# Cynnwys.

**Erthygl Arbennig- Aflonyddu Rhywiol**........1-2

Adnoddau SchoolBeat........3

Sbotolau ar Gyffur – Tybaco Anghyfreithlon........4-5

Ysgol Ddi-fwg........6-7

Diogelwch ar y rheilffyrdd........8-9

Pobl Ifanc a Gamblo........10-13

Beth sy'n newydd? ........14-15

|Dod a chosbi corfforol i ben yng Nghymru ........16




> **"Dylai plant sydd wedi wynebu cam-drin rhywiol rhwng cyfoedion, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gael eu cefnogi i siarad, dylent gael clust i wrando a'r help sydd ei angen arnynt mewn lleoliadau addysgol a'r tu allan iddynt."**

"Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon" Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru. Estyn 2021.

# Aflonyddu Rhywiol.

## Beth yw Ymddygiad Rhywiol Niweidiol?

Mae adroddiad Estyn yn disgrifio'r term Ymddygiad Rhywiol Niweidiol fel un sy'n disgrifio continwwm o ymddygiadau rhywiol, o ymddygiad normal i ymddygiad ymosodol a threisgar.

Ceir ystod o ymddygiadau cyffredin ac iach ar gamau datblygu gwahanol. Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd yr ystyrir eu bod y tu allan i'r ystod hon, mae'n bosibl y caiff yr ymddygiad ei alw'n 'niweidiol' am ei fod yn niweidiol iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill.

### *Parch*

Mae diffyg parch wrth wraidd ymddygiad sy'n cael ei ystyried yn aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Felly, mae angen i fewnbwn addysgol yn ymwneud ag Aflonyddu Rhywiol fynd i'r afael â'r diffyg parch sy'n ymhlyg â'r ymddygiad hwn.

**"Mae un o gwestiynau'r arolwg yn gofyn, "Pryd y mae pobl ifanc yn credu y dylai sgyrsiau am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ddechrau?"** (Cyfieithiad)

Nododd 53% mai blwyddyn 6 a 7 yw'r adeg gywir. Mae merched yn fwy tebygol o ddewis oedran is na bechgyn. Roedd 44% o fechgyn o'r farn y dylid ei drafod mewn ysgolion cynradd o gymharu â 61% o ferched. Mae disgyblion sydd wedi wynebu aflonyddu rhywiol yn fwy tebygol o gredu y dylid trafod aflonyddu rhywiol ar oedran iau.

## Safbwyntiau pobl ifanc ar aflonyddu rhywiol


- Mae gan y rhan fwyaf o fechgyn a merched ddealltwriaeth glir o beth yw aflonyddu rhywiol.
- Maent yn cyfeirio at gydsyniad wrth bennu p'un a yw ymddygiadau yn briodol ai peidio.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig merched, yn deall bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion fel arfer yn achosi i bobl ifanc deimlo'n anghyfforddus, yn orbryderus neu'n anhapus.
- Yn gyffredinol, mae gan ferched wybodaeth gynhwysfawr am yr effaith negyddol uniongyrchol ar ddioddefwyr.
- Mae bechgyn yn deall yr effeithiau negyddol hefyd, ond yn cynnig ymatebion mwy cyfyng o gael eu holi yn ymchwil ESTYN.
- Mae merched yn sôn am annhegwch a bod yn destun ffansi pobl eraill.
- Mae merched yn teimlo eu bod yn cael eu gwrthrycholi, eu barnu a'u cyfyngu, yn ogystal â pheidio â chael eu parchu.
- Mae safbwyntiau bechgyn yn llai arlliwiedig na safbwyntiau'r merched, ac yn tueddu i ganolbwyntio ar yr agweddau amlycaf fel defnydd o iaith ac ymddygiadau sydd gyfwerth ag aflonyddu rhywiol. Estyn 2021.

# Meithrin gwydnwch ymysg pobl ifanc o ran aflonyddu rhywiol

- Pan fydd oedolion yn gweld pobl ifanc yn aflonyddu'n rhywiol ar eu cyfoedion yn yr ysgol, **mae angen i'r oedolyn gymryd camau gweithredu.** (Dim anwybyddu na bychanu'r ymddygiad).
- Dangos esiampl o **ymateb adferol** i **unioni niwed. Grymuso targed** yr aflonyddu rhywiol a rheoli ymddygiad y person ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd niweidiol, a'i helpu i **gydnabod y niwed** y mae wedi'i achosi.
- Osgoi defnyddio **iaith sy'n beio'r dioddefwr** wrth gyfathrebu, e.e., Disgrifio bod dillad y mae person ifanc yn eu gwisgo'n amhriodol, yn hytrach na thynnu sylw at ymddygiad amhriodol y troseddwr a'i reoli.
- **Gwrando - diogelu, cefnogi a chyfeirio** targed yr ymddygiad rhywiol niweidiol at help.
- **Osgoi ymateb i bobl ifanc** fel petaen nhw'n **oedolion sy'n cyflawni troseddau rhywiol** pan fyddant yn delio ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. **Nid yw'r 2 frawddeg hyn yn cysylltu'n dda â'i gilydd. Mae'r un gyntaf wedi'i chyfeirio at yr athro, yr ail at y person ifanc** Dysgu bod yn barchus a deall bod niwed yn allweddol i newid ymddygiad.
- **Annog pobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb i weithredu** pan fyddant yn gweld achos o aflonyddu rhywiol.
- **Rhoi cyfle am drafodaeth agored** o gwmpas y testun mewn amgylchedd dysgu diogel.
- **Annog pobl i roi gwybod am achosion** drwy ddefnyddio gwasanaethau fel **Fearless**, sy'n ddienw.
- **Defnyddio gwasanaethau gan hwyluswyr allanol** fel **Swyddog Heddlu'r Ysgol** i gael mewnbwn diogelu perthnasol

## Iaith Ofalus
(Mind your language)

Mae'n hanfodol defnyddio terminoleg briodol pan fydd rhywun wedi camfanteisio ar blant a phobl ifanc neu pan fyddant yn wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt. Rhaid osgoi iaith sy'n awgrymu bod y plentyn neu berson ifanc yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am gael eu cam-drin neu ddioddef trosedd er mwyn sicrhau ein bod yn eu diogelu mewn modd priodol. Mae'n bwysig cydnabod hefyd na all plentyn gydsynio i rywun gamfanteisio arno. Cyfeiriwch at ganllawiau Cymdeithas y Plant.


The Children's Society

Appropriate Language in Relation to Child Exploitation

Guidance for Professionals

**DOLEN GYSWLLT I LAWRLWYTHO PDF**

# Adnoddau SchoolBeat

## Cymorth gan eich Swyddog Heddlu Ysgol

Siaradwch â Swyddog Heddlu'r Ysgol ynghylch darparu unrhyw un o'r adnoddau canlynol sy'n cefnogi themâu yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol.

### CYNRADD





Mae'r mewnbwn hwn wedi'i anelu at flwyddyn 6. Mae'n helpu dysgwyr i rannu pethau priodol yn ddiogel ac yn ystyried effaith dewis rhannu ffotograff noeth â chyfoedion, ac yn rhoi gwybodaeth am bwy all helpu.




Mae'r mewnbwn hwn wedi'i anelu at flynyddoedd 6 a 7. Mae'n helpu dysgwyr i ystyried pwysigrwydd parchu ei gilydd drwy thema aflonyddu rhywiol.

### UWCHRADD




Mae'r mewnbwn hwn wedi'i anelu at flwyddyn 7. Mae'n helpu dysgwyr i wneud dewisiadau cadarnhaol ac yn ystyried effaith dewis rhannu ffotograff noeth â chyfoedion, sut i wrthwynebu pwysau gan gyfoedion a phwy all helpu.




Mae'r mewnbwn hwn wedi'i anelu at flwyddyn 10. Mae'n helpu dysgwyr i ddeall a chydnabod pwysigrwydd cydsyniad rhywiol, canlyniadau cyfreithiol peidio â pharchu cydsyniad rhywiol a phwy all gefnogi a helpu.



# Sbotolau ar gyffur Tybaco Anghyfreithlon

Mae gwir bryder yng Nghymru ar hyn o bryd am gynhyrchion tybaco anghyfreithlon sydd ar werth yn ein cymunedau. Yn aml iawn, mae gwerthiant tybaco anghyfreithlon yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern a chamfanteisio ar bobl.

Mae safleoedd yn ymddangos ledled Cymru lle caiff tybaco anghyfreithlon ei gyflenwi. Ni chaiff ei weld ond caiff ei guddio'n aml mewn modd clyfar mewn mannau cudd yn y siop neu mewn lleoliadau eraill fel ceir wedi'u parcio gerllaw. Yn aml, bydd gan y siopau hyn gynhyrchion eraill sydd ag oes silff hir iawn i guddio'r ffaith eu bod yn gwerthu tybaco anghyfreithlon.

Mae'r cynhyrchion hyn hefyd yn cael eu gwerthu'n ddiegwyddor i blant. Nid yw'n gyfreithlon i sigaréts gael eu gwerthu mewn symiau bach nac yn unigol, ond mae achosion lle mae hyn yn digwydd i dargedu pobl iau sydd heb gymaint o arian.

Yn ogystal, mae plant yn wynebu risg y bydd y troseddwyr cyfundrefnol hyn yn cam-fanteisio arnynt i werthu'r cynhyrchion hyn, a daw hyn o dan fantell gweithgarwch Llinellau Cyffuriau.

> **"Camfanteisio'n Droseddol ar Blant yw pan fydd rhywun yn gwneud ffrind â phlentyn neu berson ifanc ac yn ei gam-drin, yn cymryd mantais arno, yn meithrin perthynas amhriodol ag ef a'i reoli at ddiben troseddol"**




## Cymorth gan eich Swyddog Heddlu Ysgol

Siaradwch â'ch Swyddog Ysgol ynglŷn â chyflwyno mewnbwn y Disgybl a'r Rhieni o'r enw Cwlwm Twyll. Ei nod yw diogelu pobl ifanc rhag pobl sydd am feithrin perthynas amhriodol â nhw ar gyfer troseddau Llinellau Cyffuriau.

# TYBACO ANGHYFREITHLON

**Os ydyn nhw'n rhad - maen nhw'n fwy na thebyg yn anghyfreithlon!**


DIM ESGUS. BYTH.
NO IFS. NO BUTTS.

ash wales cymru
action on smoking and health

## Os nad ydych chi'n gwybod yn barod, mae tybaco anghyfreithlon yn dod mewn ychydig o wahanol ffurfiau:



- Cynhyrchion dilys sydd wedi'u smyglo i osgoi treth
- Sigarennau unigol nad ydynt mewn pecynnau
- Fersiynau ffug o frandiau dilys
- Brandiau tramor



## Felly, beth yw'r broblem fawr?

- Mae ysmygu yn niweidiol i atalnod llawn eich corff. Rydyn ni'n siarad am ganser, clefyd yr ysgyfaint a chlefyd y galon... a marwolaeth
- Ffarweliwch â'ch arian os cewch eich gwirioni. Ffarwelio â gwyliau, ffonau gwell, neu ddillad newydd
- Bydd eich gwallt a'ch dillad yn drewi, a'ch dannedd a'ch dwylo'n troi'n felyn. Nid yw clefyd y deintgig yn giwt
- Gallech golli swyddi yn y dyfodol, neu gallech gael trafferth hyd yn oed cael swydd pan fyddwch yn ysmygu

## Gall fod yn anodd dod o hyd i dybaco anghyfreithlon, ond cadwch olwg am:



- Prisiau rhad
- Diffyg rhybuddion iechyd
- Ieithoedd tramor ar y pecyn
- Wedi'i werthu mewn siopau didrwydded, cartrefi preifat, tafarndai a chlybiau neu'n cael eu hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol

## Sut alla i ei atal? Rho wybod.

› Rhowch wybod amdano yn ddienw yn dimesgus-byth.co.uk

Scan QR Code

DIM ESGUS. BYTH. | NO IFS. NO BUTTS.

**Angen help i roi'r gorau i ysmygu?**

Ewch i **ash.wales**

sganio côd QR

**Bydd 1 o bob 2 ysmygwr yn marw o ysmygu. Nid oes ots a yw'r sigaréts yn gyfreithlon neu ddim.**



# Mae tir ysgolion Cymru yn ddi-fwg

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wahardd smygu ar dir ysgolion ar 1 Mai 2021. Gall smygwyr bellach gael dirwy o £100 am anwybyddu'r rheolau di-fwg. Gan fod miloedd o gemegion mewn mwg sigaréts, mae tiroedd ysgol di-fwg yn diogelu cymuned gyfan yr ysgol rhag peryglon mwg ail-law.

I blant a phobl ifanc y mae eu cyrff yn parhau i ddatblygu, mae'r peryglon yn cynnwys mwy o risg o asthma, heintiau yn y frest, heintiau yn y glust a llid yr ymennydd. Mae mwg ail-law hefyd yn cynyddu'r risg o heintiau anadlu fel y Coronafeirws.

Lawrwythwch y poster drwy'r cod QR isod.





## Mae 4% o bobl 11-16 oed yn smygu bob wythnos o leiaf

**Mae arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019 a gynhaliwyd mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yn dangos**

# Gall ysgolion...



- Ddiweddaru eu polisi smygu i adlewyrchu'r Rheoliadau Di-Fwg newydd. Arddangos arwyddion yn unol â'r gyfraith a gwneud yn siŵr bod cymuned gyfan yr ysgol, gan gynnwys ymwelwyr, yn eu dilyn.
- Ennyn diddordeb myfyrwyr cynradd ac uwchradd mewn addysg tybaco, gan gofio eu haddysgu am yr effeithiau y gall smygu eu hachosi yn gyflym, fel llai o ffitrwydd ac arogli o fwg, yn ogystal â sgiliau bywyd pwysig fel gwneud penderfyniadau a gwrthsefyll pwysau.
- Rhaid gwerthu sigaréts mewn ‘pecynnau plaen’ gyda delweddau graffig yn y DU.  Nid yw pecynnau o 10 yn gyfreithlon mwyach ac ni ellir gwerthu sigaréts/tybaco i unrhyw un dan 18 oed.
- Gallwch rannu gwybodaeth am werthu neu gyflenwi tybaco i bobl ifanc dan oedran yn ddienw â Crimestoppers Cymru. Gall plant roi gwybod i Fearless.
- Rhoi gwybodaeth am fanteision rhoi'r gorau iddi.  Cefnogi staff, rhieni a disgyblion i roi'r gorau iddi drwy hyrwyddo'r gwasanaeth cenedlaethol, rhad ac am ddim “Helpa Fi i Stopio”.




I gael rhagor o wybodaeth am Sylweddau Sinistr, sef y wers Gynradd gan SchoolBeat sy'n cynnwys Tybaco, siaradwch â Swyddog Heddlu'r Ysgol.

ash wales cymru
action on smoking and health

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth yn ymwneud â smygu, edrychwch ar ASH Cymru - Action on Smoking and Health Wales

**Er ei bod yn anghyfreithlon gwerthu sigaréts i unrhyw un dan 18 oed yng Nghymru, dywedodd 39% o ysmygwyr Blwyddyn 11 yn yr arolwg eu bod wedi ysmygu eu sigarét cyntaf cyn eu bod yn 14 oed.**



# Diogelwch ar ein rheilffyrdd!

Bob blwyddyn, mae cannoedd o bobl yn cymryd risgiau ar y rheilffyrdd ac o'u cwmpas, gan arwain at ganlyniadau trychinebus ac anafiadau sy'n newid bywydau.

Negeseuon pwysig i athrawon, rhieni a gofalwyr eu rhannu â phlant:

- Nid yw'r rhwydwaith rheilffyrdd yn mynd i gysgu ar ôl y gwasanaethau olaf i deithwyr. Mae trenau llwythi nad ydynt yn cael eu hysbysebu yn rhedeg drwy'r nos.
- Gall trên deithio hyd at 125mya a gall gymryd hyd at 20 cae pêl-droed i stopio!
- Mae'n drosedd tresmasu ar y rheilffordd a gallech gael dirwy o hyd at £1000.
- Mae'r trydan ymlaen drwy'r dydd a nos ar y rheilffyrdd ac mae'r foltedd 100 gwaith yn fwy pwerus nag ydyw yn eich cartref.

## Ffilmiau Cadw'n Ddiogel ar y Rheilffyrdd

Cynradd (Cymraeg)
**https://network-rail.wistia.com/medias/z7iluv0q55**

Uwchradd
**https://network-rail.wistia.com/medias/nrjwfg6yhw**



# SWITCHED ON!

## Rhaglen diogelwch ar y rheilffyrdd newydd i bobl 3-16 oed sy'n annog pobl ifanc i fod yn wyliadwus o amgylch rheilffyrdd!

Mae Switched On yn addysgu disgyblion i fod yn ymwybodol o ymddygiad peryglus a meithrin sgiliau nodi peryglon drwy amrywiaeth o ffilmiau, gemau rhyngweithiol a gweithgareddau dosbarth penodol i oedran.

**www.switchedonrailsafety.co.uk**

# Ceisiwch y cwis!

Cafodd #iamtrainsafe ei greu i addysgu plant o oedran ifanc am ddiogelwch rheilffyrdd, mewn ffordd hwyliog a difyr. Mae'r ymgyrch yn serennu Joanna Page, actors Gavin and Stacey, a'r cyn chwaraewr rygbi, Gareth Thomas.

**www.iamtrainsafe.co.uk**



# Gamblo a Pobl Ifanc

YOUNG PEOPLE'S GAMBLING HARM PREVENTION PROGRAMME
Education | Training | Support
GamCare YGAM

## A yw Gamblo wir yn cael effaith ar bobl ifanc?

Er bod y rhan fwyaf o gamblo yn anghyfreithlon i bobl ifanc dan 18 oed, mae'r Arolwg Pobl Ifanc a Gamblo llawn diweddaraf yn dangos bod tua 350,000 (11%) o bobl ifanc 11-16 oed wedi gwario'u harian eu hunain yn gamblo yn ystod yr wythnos flaenorol. Mae hynny'n fwy na'r rhai a smygodd (6%) neu a gymerodd gyffuriau (5%).

Mae mwy o fechgyn yn gamblo na merched, ac mae modd dosbarthu cynifer â 55,000 o bobl ifanc ledled y wlad fel gamblwyr 'problemus' gan ddefnyddio adnodd sgrinio cydnabyddedig ac mae 80,000 arall wedi'u dosbarthu fel eu bod 'mewn perygl'.

Ym mis Ebrill 2020, cysylltodd yr Addiction Recovery Agency â'u partneriaid yn GamCare i gyflwyno'r Rhaglen Atal Niwed Hapchwarae Pobl Ifanc yma yng Nghymru.




### Beth mae'r Rhaglen yn ei gynnig?

Mae pob gweithdy **AM DDIM** ac ar gael i weithwyr pobl ifanc ac ieuenctid proffesiynol.

**Pobl Ifanc 11-19 oed**


- Bydd pobl ifanc yn cael gwybodaeth ac ymwybyddiaeth er mwyn gallu gwneud dewisiadau deallus am gamblo.
- Bydd pobl ifanc yn deall effaith gamblo niweidiol, ac yn cydnabod arwyddion niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ynddynt eu hunain neu mewn pobl eraill.
- Bydd pobl ifanc yn gwybod ble a sut i gael cymorth os byddant yn wynebu niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

# Ffactor risg ac arwyddion i gadw llygad amdanynt

Ymhlith y ffactorau risg ar gyfer gamblo sy'n peri problem, mae hanes o gamblo yn y teulu; ennill llawer yn gynnar; hunan-barch isel, diflastod neu iselder; a phwysau gan gyfoedion.

Os ydych chi'n poeni bod plentyn yn gamblo ac y gallai fod yn mynd allan o reolaeth, dyma rai arwyddion i gadw llygad amdanynt:

- Mynd yn bigog ac yn aflonydd, ymddwyn mewn modd cyfrinachgar, dweud celwydd
- Colli ysgol, methu cwblhau gwaith cartref, colli diddordeb mewn gweithgareddau allgyrsiol a diddordebau
- Mwy o ddiddordeb mewn arian ac eiddo; meddu ar fwy (neu lai) o arian parod na'r arfer
- Yn fwy cystadleuol nag arfer, yn awyddus i fod ‘yn iawn’ am bethau.



## Gweithwyr Ieuenctid Proffesiynol

**Gweithdai DPP Achrededig:**

- Cynyddu eich ymwybyddiaeth o sut mae gamblo, hapchwarae ar-lein, hysbysebion a'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithio ar bobl ifanc.
- Dysgwch sut y gall gamblo newid o fod yn weithgaredd cymdeithasol i achosi niwed sylweddol.
- Dysgwch sut i adnabod niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a sut mae'n effeithio ar bobl ifanc.
- Magwch hyder er mwyn i chi allu cefnogi pobl ifanc sy'n wynebu niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.



**“Gellir dosbarthu cymaint â 55,000 o bobl ifanc yn genedlaethol fel gamblwyr sydd â 'phroblem'”**

# Hapchwarae a gamblo

Mae 93% o bobl ifanc 11-16 oed yn chwarae gemau fideo yn rheolaidd. Mae'r poblogrwydd wedi arwain cwmnïau gemau i geisio gwneud cymaint o arian â phosibl drwy chwaraewyr gemau. Dyna pam y mae'r gemau poblogaidd fel FIFA yn gwneud mwy o arian o werthu trafodion yn y gemau nag o werthu'r gêm ei hun!

Yn aml, caiff Blychau Eitemau eu prynu gan ddefnyddio arian y byd go iawn. Maen nhw'n eich galluogi i agor blwch wedi'i gloi yn y gêm a'ch gwobrwyo ag eitem ar hap i'w defnyddio yn y gêm honno. Fodd bynnag, teimla llawer o bobl fod agor blychau eitemau yn debyg i gamblo am nad yw chwaraewr y gêm yn cael dewis y wobr.

Weithiau, mae chwaraewyr gemau'n dangos mathau o ymddygiad caethiwus a byddant yn agor blychau eitemau dro ar ôl tro hyd nes y byddant yn fodlon ar y wobr a roddir iddynt. Yn aml, ceir adroddiadau yn y cyfryngau o bobl ifanc yn gwario cannoedd, ac weithiau miloedd o bunnoedd heb ganiatâd eu rheini, wrth agor blychau eitemau.

Yn aml, y rhieni sy'n gorfod talu'r bil ac am agor y blychau o eitemau. Y rheswm dros hyn yw pan gafodd y gemau eu lawrlwytho o'r Storfa Apiau, roeddent yn gysylltiedig â chyfrifon banc y rhieni ac roedd y rhieni wedi methu â chreu cyfrinair i ddiogelu unrhyw bryniannau yn y gêm.




**“Pobl ifanc sy'n gwario arian ar flychau eitemau 10 gwaith yn fwy tebygol o fod yn gamblwyr problemus”**

Yn y DU, mae 40% o blant 11-16 oed wedi agor blychau eitemau.

Gall pobl o unrhyw oedran agor blychau eitemau yn gyfreithlon gan nad oes cyfyngiadau oedran cyfreithlon yn y DU ar hyn o bryd. Yn 2020, soniodd Tŷ'r Arglwyddi fod:

"Mae 91% o gemau fideo yn cynnwys blychau o eitemau sydd ar gael i'w prynu".




**Caiff llawer o'r gemau eu lawrlwytho gan rieni gyda rhai o'r teitlau mwyaf poblogaidd yn cynnwys:**

FIFA – Fortnite – Call of Duty – League of Legends a llawer mwy.

## CYMORTH A CHEFNOGAETH

BIG DEAL?



Mae BigDeal yn cynnig gwasanaeth cymorth ymroddedig wedi'i deilwra i anghenion pobl ifanc. Gall y Gwasanaeth gefnogi unrhyw un 18 oed neu'n iau ledled y DU sy'n wynebu niwed oherwydd gamblo neu mewn perygl o hynny. Gall hyn fod os ydyn nhw'n gamblo eu hunain neu os yw gamblo rhywun arall yn effeithio arnynt.

**Mae'r gwasanaeth am ddim, yn hyblyg ac yn gyfrinachol ac mae'n cynnwys:**

- Gwybodaeth, cyngor a chanllawiau drwy Linell Gymorth Genedlaethol ar Gamblo GamCare (dros y ffôn neu drwy sgwrs fyw)
- Ymyriadau Cryno neu Ymyriadau Cryno Estynedig (gall hyn fod yn un alwad, neu'n gyfres o alwadau i weld sut maen nhw'n gwneud)
- Adnodd hunangymorth
- Ymyriadau strwythuredig sydd wedi'u teilwra i anghenion y person ifanc

# Beth sy'n newydd?

Rydym wedi creu cyfres o adnoddau newydd i ysgolion cynradd, sef Croniclau Ysgol Gynradd Pen y Fforest. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o themâu cyfoes drwy straeon yn yr ysgol gynradd ffuglennol hon i gefnogi dysgwyr â themâu fel ymddygiad niweidiol ar-lein, troseddau'n ymwneud â chyllyll, aflonyddu rhywiol a hapchwarae. Y bwriad oedd i'r mewnbynnau hyn gael eu cyflwyno o fewn terfyn amser byrrach na'n gwersi ac efallai y byddant yn gweddu'n well i wasanaethau estynedig, grwpiau wedi'u targedu neu ddosbarthiadau llawn.




Mae'r mewnbwn hwn yn helpu dysgwyr i ystyried sut mae ymddwyn yn gyfrifol ar-lein. Mae'n canolbwyntio ar y gyfraith ac Ymddygiad Niweidiol Ar-lein, sut i ddewis gwneud y peth cywir a phwy all helpu.





Mae'r mewnbwn hwn yn helpu dysgwyr i ystyried sut mae ymddwyn yn gyfrifol ar-lein. Mae'n canolbwyntio ar y gyfraith a bwlio ar-lein, beth i'w wneud a phwy all helpu.




Mae'r mewnbwn hwn yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau diogel ynghylch cyllyll. Byddant yn dysgu beth i'w wneud os ydynt yn gwIF you can ybod am rywun-y tu mewn neu'r tu allan i'r ysgol sy'n cario cyllell ac yn gallu adnabod pwy all helpu.



# Beth sy'n newydd i ysgolion uwchradd?










Mae gan y wers wedi'i diweddaru hon am fod ym meddiant Canabis a'i gyflenwi, ffilm newydd sbon bellach sy'n dilyn y prif gymeriad Gareth a'r canlyniadau iddo ef a'r rheiny o'i gwmpas pan gaiff ei ddal gan yr heddlu a'i gyhuddo o fod â'r bwriad i gyflenwi Canabis.

# Pamffledi gwybodaeth SchoolBeat

Mae ystod eang o bamffledi sy'n trafod amrywiaeth o bynciau ar gael i'w harchebu nawr. Dyluniwyd rhain gan Adran Argraffu Heddlu De Cymru a SchoolBeat. I weld beth sydd ar gael neu am fwy o wybodaeth, ewch i **SchoolBeat.cymru**



# Stopio cosbi corfforol yng Nghymru

**Mae cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru. Mae sawl math o gosb gorfforol. Fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd. Ond mae mathau eraill hefyd.**



Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi hawl i blant a phobl ifanc i gael eu hamddiffyn rhag niwed a chael dolur. Mae hyn yn cynnwys cosbi corfforol.

Cymru bellach yw'r drydedd ran o Ynysoedd Prydain i wneud cosbi corfforol yn anghyfreithlon, ar ôl Jersey a'r Alban yn 2020. I gael gwybod mwy, ewch i **llyw.cymru/stopio-cosbi-corfforol-i-blant**



Mae **Magu plant. Rhowch amser iddo** yn cynnig dewisiadau eraill yn hytrach na chosb gorfforol. Ewch i **gov.wales/giveittime**

> **“Nid yw cosbi plant yn gorfforol yn effeithiol o ran gwella ymddygiad plant ac, yn hytrach, mae'n cynyddu anawsterau”**

Cymerwyd o arolwg dan arweiniad UCL, sganiwch y côd QR i ymweld â'u gwefan